Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Ebrill 25ain, 2007 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Dawn Wallace, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Cyng Pam Steane Price
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Cyng Edward Thomas, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Fran Murphy

Materion yr Heddlu: Robert Smith, adroddodd y Swyddog Cymorth Cymunedol ar y materion a nodwyd gan y Cyngor yn ystod y cyfarfod diwethaf.

- Mae mesurau megis darparu goleuadau, seddi a binnau sbwriel ym Mharc Le Conquet yn derbyn ystyriaeth er mwyn brwydro yn erbyn ymddygiad gwrth-gymdeithasol a darparu gwell cyfleusterau i bobl ifanc.
- Mae'r strategaeth o "symud ceir ymlaen" yn Heol Rhosmaen yn gweithio'n dda ac yn cael ei ganmol gan y masnachwyr.
- Mae unigolyn wedi derbyn dirwy o £75 gan Swyddogion Amgylcheddol am waredu sbwriel yn anghyfreithlon "Fly tipping"

Cof 15 / Ebrill / 07 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher 28ain Mawrth, 2007 fel cofnod cywir gan gynnwys y newidiadau canlynol :
Ymddiheuriadau – Mynychodd y Cyng Hugh Towns ail hanner y cyfarfod.
Materion yr Heddlu ychwanegiad – Wnaeth y Cyng Charlotte Leadbeater longyfarch y Swyddogion Cymorth ar eu gwaith.
Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar 11eg Ebrill fel cofnod cywir, ac fe'u hargymhellwyd i'r Cyngor Llawn i'w derbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Ebrill 11eg, 2007 fel rhai cywir ac fe'u hargymhellwyd i'r Cyngor Llawn i'w derbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 16 / Ebrill / 07 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parthed Cof 225 / Mawrth / 07. Rhoddwyd llythyr i'r Cynghorwyr gan y Cyng Pam Steane Price ar ran y Gymdeithas Gymunedol yn esbonio'r berthynas rhwng

Cymdeithas Gymunedol Llandeilo, Clwb Garddio Llandeilo a'r cyfrif Banc sy'n ymwneud â Llandeilo yn ei Blodau. Bydd y mandad ar gyfer trosglwyddo cyfrif Llandeilo yn ei Blodau i Glwb Garddio Llandeilo yn digwydd cyn gynted ag y bydd manylion y rheini sy'n arwyddo ar ran y Clwb Garddio yn hysbys. Derbyniwyd yr esboniad hwn gan y Cyngor.
Parth : Cof 228 / Ebrill / 07. Mae'r Cyng Ieuan Gwyn wedi cwrdd â chyfreithiwr y Cyngor. Y cyngor a roddwyd oedd fod manylion y les yn gywir a does dim angen gwneud newidiadau.
Parth: Cof 4 /Ebrill / 07. Mae dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda Davies Richards wedi newid o Ebrill 30ain i Fai 21ain yn Neuadd y Sir am 4.30pm.
Parth: Cof 8 / Ebrill / 07. Mae'r Cyng Roy Davies wedi cadarnhau'r trefniadau ar gyfer lansio'r Llwybr Treftadaeth.
Parth: Cof 14 / Ebrill /07. Mae'r Maer Cyng Hugh Towns mewn trafodaeth gyda Gwilym Hughes a Ken Murphy mewn perthynas â chostau ariannol y digwyddiad i lansio'r Llwybr Treftadaeth.

Cof 17 / Ebrill / 07 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Awgrymodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y dylai Cyngor y Dref gefnogi'r angen i brynu arwyddion ffordd "brown" newydd i'r Dref fel y defnyddir ar gyfer gwybodaeth i Dwristiaid. Mae Cymdeithas Dwristiaeth Sir Gaerfyrddin yn fudiad a allai o bosib gynorthwyo'r Cyngor. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Clerc gysylltu â'r Gymdeithas. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
Wnaeth y CS Ieuan Jones longyfarch pawb sydd wedi ymwneud â lansio'r Llwybr Treftadaeth a'r gwaith atgyweirio yn Neuadd y Sir, a diolchodd i'r Cynghorwyr am eu holl waith caled. Awgrymodd y dylai'r Cyngor gysylltu â Debbie Williams o Swyddfa Cysylltiadau CSC er mwyn cynnwys erthygl yn rhifyn nesaf o'r Cylchlythyr Cymunedol - Cymuned.
Mae'r angen i ailosod y llinellau melyn dwbl mewn mannau yn Heol Alan a Maes Mwyn wedi'u cynnwys yn y rhaglen waith sydd i'w gwblhau gan CSC cyn gynted â phosib.
Holodd y Cyng Colin Jenkins sut y daethpwyd o hyd i arian i wneud y gwaith atgyweirio i'r llwybr arfordirol ym Mhentywyn, ac eto, does dim arian ar gael ar gyfer pwll nofio yn Ysgol Tre-gib. Dywedodd y CS Jones y gellir adennill yr arian ar gyfer atgyweirio'r llwybr gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones fod y gwaith strwythurol sydd angen ei wneud ar Bont y Brenin ar waith gan CSC.
Holodd y Cyng Colin Jenkins pryd fyddai'r pyst gôl yn cael eu gosod ym Mharc Le Conquet, a'r cyfleusterau eraill a awgrymwyd yn Materion yr Heddlu. Awgrymwyd gan CS Jones y dylid ystyried ffynonellau eraill o arian megis y "Gist Gymunedol".
Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Ganolfan Croeso. Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies y dylid anfon llythyr at Susan Van Egan o CSC yn mynegi siom fod y Ganolfan mor wael o ran trefniadaeth ac yn amharod i gymryd taflenni Llwybr Treftadaeth y dref er mwyn iddynt gael eu rhoi i'r cyhoedd. Eiliwyd hyn gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Cof 18 /Ebrill / 07 Materion Ariannol.

1 Anfonebau i'w Talu
Orchardweb (cynnwys cofnodion a hysbysfwrdd) £52.50
Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy.

2. Materion Ariannol Eraill
   i) Adroddiad Archwilio
   Cafwyd diweddariad o'r cyfrifon sydd i'w cynnwys yn adroddiad eleni gan y Swyddog Cyllid. Gofynnodd a fyddai'n bosib diweddaru'r gofrestr o Asedau. Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol ystyried a oedd yna eitemau sy'n cael eu cadw y gellid cael eu gwared.

Cof 19 / Ebrill/ 07 Cludiant a Goleuadau

Doedd dim materion i adrodd arnynt.

Cof 20 / Ebrill / 07 Adroddiad y Maer

Dywedodd y Maer Cyng Hugh Towns ei fod wedi mynychu tri digwyddiad, sef cinio Cyfeillion Tenovus Llandeilo. Agoriad y tymor Bowls. Lansiad y Llwybr Treftadaeth. Roedd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y Lansiad ac i'r rheini sydd wedi bod yn rhan o'r Prosiect Treftadaeth a Phrosiect Neuadd y Sir.

Cof 21 / Ebrill / 07 Y Prosiect Treftadaeth.

Adroddodd y Cyng Roy Davies ar lwyddiant y digwyddiad i Lansio Llwybr Treftadaeth y Dref a'r Gwaith Atgyweirio ar Neuadd y Sir. Roedd yn teimlo'n hyderus y byddai'r Cyngor yn gallu ailadrodd digwyddiad fel hwn i unrhyw fudiad fyddai'n dymuno ymweld yn y dyfodol. Fel rhan o'r Diwrnodau Agored cafwyd areithiau ar waith Cyngor y Dref, Hanes Neuadd y Sir, Archaeoleg Sir Gaerfyrddin, dangosiad o raglen ddiweddar gan HTV ar Landeilo yn ogystal â theithiau tywysiedig ar hyd y Llwybr Treftadaeth newydd. Mae'r Cyngor wedi derbyn copi o'r rhaglen HTV ar Landeilo yn ogystal â DVD gyda darluniau o adeiladau a'r Paneli ar gyfer ei archifau.
Wrth ddiolch i'r Cyng Roy Davies, cynigiodd y Maer y dylid gofyn i'r Cyng Davies baratoi datganiad i'r wasg i'w rhoi yn y Guardian, Carmarthen Journal, cylchlythyr CSC Cymuned yn ogystal â gwefan y Cyngor. Cytunodd y Cyng Davies i wneud hyn. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Clerc ysgrifennu at Caron Promotions er mwyn derbyn adroddiad ar eu dosbarthiad o daflenni'r Llwybr Treftadaeth. Eiliwyd hyn gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 22 / Ebrill /07 Prosiect Neuadd y Sir

Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol archwilio problem gyda'r system garthffosiaeth. Cafwyd trafodaeth parthed paentio blaen Neuadd y Sir a manylion y gwaith sydd angen ei wneud er mwyn adnewyddu'r blaen. Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.
Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Clerc anfon llythyr o ddiolch i Mr Gwilym Hughes sy'n gadael ei swydd fel Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cambria ac yn cymryd swydd arall ar Mai 1af. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 23 / Ebrill /07 Adroddiad yr Is-grŵp Iechyd.

Bydd y Cyng Charlotte Leadbeater a'r Cyng Fran Murphy yn mynychu cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Iechyd Lleol ar Fai 24ain.

Cof 24/ Ebrill / 07 Prosiect yr Ardd Gymunedol.

Dim adroddiad.

Cof 25 / Ebrill / 07 Diweddaru'r Wefan
Derbyniwyd gohebiaeth parthed cyfeiriad e bost unigolyn yn ymddangos ar yr hysbysfwrdd. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Orchardweb er mwyn dileu hyn yn ogystal â gofyn iddynt atgoffa pobl pe baent yn cynnwys eu cyfeiriad e bost gyda'i neges, yna bydd yn ymddangos ar y wefan.

Cof 26 / Ebrill / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.
Dywedodd y Cyng Colin Jenkins fod 7 o'r hysbysebwyr heb dalu, er eu bod wedi derbyn nodyn atgoffa. Mae Mr Geraint Price wedi cytuno i baratoi'r rhaglen ar gyfer ei hargraffu a'u dosbarthu gyda'r anfonebau a baratoir gan y Clerc. Ni ofynnir i Mr Price gasglu unrhyw arian.

Cof 27 / Ebrill / 07 Adroddiad y Swyddog Technegol.
Adroddwyd bod un o'r ffenestri to yng nghefn y swyddfa yn gollwng. Bydd y Swyddog Technegol yn dod o hyd i amcangyfrif i wneud y gwaith.

Cof 28 / Ebrill /07 Gohebiaeth i'w ystyried

1. Gohebiaeth yn gofyn am ganiatâd i gael cyswllt â safle masnachol. Yr unig ffordd y caniateir hyn yw pe bai trefniant cilyddol.
2. Dogfennau ac adroddiadau Un Llais Cymru. Cynigiodd y Maer Cyng Hugh Towns i archwilio'r ddogfen ar y 'Weithdrefn Gwyno'

Cof 29 / Ebrill / 07 Gohebiaeth er gwybodaeth

Cylchlythyr gan Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo a'r Cylch. Nodwyd.

Cof 30 /Ebrill / 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Gofynnodd y Cyng Pam Steane Price i'r Rheoliadau Ariannol gael eu tynnu oddi ar y wefan cyn gynted â phosib gyda datganiad yn dweud eu bod yn cael eu hadolygu cyn eu hailosod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 p.m.